Ydych chi wedi gweld yr Ysbrydwlithen?

national museum wales
amgueddfa cymru

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Daethpwyd o hyd i'r Ysbrydwlithen hynod am y tro cyntaf mewn gardd yng Nghaerdydd yn 2007. Mae'n ddall, yn byw o dan y ddaear, ac mae'n bwyta mwydod drwy wasgu eu gwalau i lawr. Daw'r Ysbrydwlithod yn wreiddiol o Dwrci a Georgia. Nid ydynt wedi cael eu gweld o'r blaen yn Ewrop, ond mae'n bosib eu bod yn ymledu. Hoffem glywed gan unrhyw un sydd wedi eu gweld.

Sut i adnabod Ysbrydwlithod, Gwlithod Cragennog, ac eraill*

Estynedig

Cywasgedig

dim llygaid

corff gwyn

rhychau ysgafn ar y cefn

twll anadlu yn y cefn

silindrog, â'r pen wedi'i sugno i mewn

1. Ysbrydwlithen

le plis

llygaid

corff brown

rhychau gweddol gryf ar y cefn

mân gragen yn gorchuddio'r twll anadlu (tebyg i ewin!)

cefngrwm

2. Gwlithen Gragennog

le plis

llygaid

twll anadlu yn agosach i'r pen

corff llyfn neu wedi'u orchuddio â defaid; weithiau'n wyn

cefngrwm

3. Malwen y Bresych (ac eraill)

Dim diolch; cyffredin iawn!

*Mae'r lluniau a ddangosir tua'r maint llawn. Bydd gwlithod ifanc yn llai. Gall y lliwiau amrywio, felly mae'r nodweddion eraill yn bwysicach.

Y cyfle gorau i weld Ysbrydwlithod yw wrth symud potiau planhigion neu balu'r ardd. Maent yn wahanol i wlithod Prydeinig eraill gan fod ganddynt dwll anadlu yn agos i'w cynffonnau. Mae'r Gwlithod Cragennog bron yn gymaint o ddirgelwch. Fel yr Ysbrydwlithod, maent yn byw mewn pridd ac yn bwyta mwydod (ond nid ydynt yn bla). Maent wedi bod ym Mhrydain am gyfnod maith, ond nid ydynt yn cael eu gweld yn aml.

Os welwch chi Ysbrydwlithod neu Wlithod Cragennog, neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy'r cyfeiriad isod. Croeso i chi anfon ffotograffau digidol, neu wlithod byw os oes rhai gyda chi.

Project Ysbrydwlithod dan ofal Ben Rowson, BIOSYB, Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, DU CF10 3NP. **Ebost:** *ben.rowson@amgueddfacymru.ac.uk*. **Ffôn:** 02920 573 110